Polisi Parch a Pherthynas

Respect and Relationships Policy

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable

Polisi Parch a Pherthynas Ysgol Dyffryn Conwy

Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar barch at bob unigolyn sy'n perthyn i'r gymuned sy'n bodoli yma boed yn staff neu'n ddysgwr. Mae hapusrwydd cymuned yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Hunan-barch, parch at eraill, cwrteisi, caredigrwydd, sensitifrwydd, cysondeb a thegwch yw prif werthoedd bywyd yr ysgol. O'r athroniaeth hon y daw ein disgyblaeth. Ceisiwn feithrin yr egwyddor o hunanddisgyblaeth drwy ddeffro'r ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan bob unigolyn dros ei weithredoedd ei hun.

Mae Polisi Parch a Pherthynas Ysgol Dyffryn Conwy yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn ac yn gosod fframwaith o ddisgyblaeth gadarnhaol glir a theg ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn o fewn neu du allan i'r dosbarth. Mae'r polisi hefyd yn datblygu a gwireddu dibenion craidd Cwricwlwm Newydd i Gymru fel y gall plant a phobl ifanc gael y cyfleoedd i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion Arferion Adferol fel rhan annatod o'r polisi. Ein prif nod yw sicrhau ymagwedd gadarnhaol tuag at fywyd a gwaith yr ysgol er mwyn hyrwyddo a chaniatáu dysgu llwyddiannus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Fel Ysgol Sy'n Parchu Hawliau Plant gweithredir y polisi hwn hefyd yn unol ag egwyddorion Hawliau Plant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sydd yn rhoi'r hawl i blant gael addysg heb gael eu tarfu gan ymddygiad anystyriol disgyblion eraill.

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU

Fel 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau' rydym yn ymrwymo i addysgu disgyblion am y Confensiwn drwy gyfres o weithgareddau ac ymgyrchoedd.

- **Erthygl 12- Hawl pob plentyn i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i gael gwrandawiad**
- **Erthygl 19- Yr hawl i beidio â chael ei niweidio, cael gofal a chadw'n ddiogel**
- **Erthygl 28- Yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol**
- **Erthygl 29- Yr hawl i fod y gorau y gall fod**
- **Erthygl 30- Yr hawl defnyddio ei iaith ei hun**
- **Erthygl 33- Yr hawl i gael ei ddiogelu rhag cyffuriau peryglus**
- **Erthygl 37- Yr hawl i gael ei drin yn deg**

Disgwyliadau

Mae disgwyliadau'r ysgol i gyd yn seiliedig ar yr egwyddor o barch, cyd-fyw a chyd-dynnu hwylus.

Gwelir posteri Parch ar draws yr ysgol yn gosod allan prif ddisgwyliadau euraidd yr ysgol. Ym mhob ystafell ddosbarth gosodir poster sy'n olrhain Disgwyliadau'r Dosbarth yn glir i bawb. Cyfeirir yn gyson mewn gwasanaethau ysgol, cyfnodau bugeiliol a gwersi, at ein disgwyliadau. Rhoddir neges glir i gymuned yr ysgol bod ymddygiad ymosodol/bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol ac y bydd ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau gyda chanlyniadau difrifol yn unol â'r disgwyliadau. Seilir hyn ar egwyddorion Arferion Adferol gyda'r nod o adfer ymddygiad gwael i fod yn ymddygiad parchus ac adfer y berthynas rhwng disgyblion er mwyn symud ymlaen gyda bywyd ysgol ble bynnag mae hyn yn bosib. Defnyddir y broses Cylch Trafod Adfer fel rhan annatod o'r broses ddisgyblu.

Rydym yn ceisio creu awyrgylch dysgu cadarnhaol drwy:

- Hyrwyddo ymddygiad da
- Hyrwyddo hunanddisgyblaeth a hunan-barch
- Hyrwyddo perthnasau cadarnhaol
- Hyrwyddo cysondeb wrth ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol

Pan nad yw safonau ymddygiad yn dderbyniol, mae'r ysgol yn ceisio bod yn gadarn, yn deg, yn glir ac yn gyson:-

- yn **gadarn -** yn yr achosion a ddilynir; cymerir camau; mae'r disgybl yn cael gwybod bod ei ymddygiad yn annerbyniol ac ymdrinir â digwyddiadau difrifol yn unol â hynny, sy'n cynnwys defnyddio'r gweithdrefnau cywir.
- yn **deg -** bod natur y gosb yn gweddu i'r drosedd, ond yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau unigol.
- yn **amlwg -** mae dysgwyr a rhieni yn deall y disgwyliadau.
- yn **gyson -** mae canllawiau clir yn cael eu rhoi i staff i hyrwyddo tegwch wrth ymdrin ag achosion o gamymddwyn a bod yr ystod o gosbau yn cael eu defnyddio'n gyson.

I fod yn effeithiol, rhaid i'r holl staff gefnogi a gweithredu'r polisi ymddygiad yn drylwyr ac yn gyson. Os nad yw hyn yn digwydd, yna bydd y dysgwyr yn drysu a'r polisi'n gwanhau. Rhaid i'n polisi ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth gael ei atgyfnerthu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi gan yr holl staff bob amser.

Ar ein poster Parch dengys beth sy'n bwysig i ni yn Ysgol Dyffryn Conwy

DISGWYLIADAU'R YSTAFELL DDOSBARTH

DISGWYLIADAU'R Ystafell Ddosbarth

Cymraeg yw iaith yr ysgol a phob gweithgaredd yn yr ysgol

1. Rhaid cyrraedd y wers yn brydlon ac ar amser.
2. Dilynwch gyfarwyddiadau'r aelod staff y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac ewch i mewn i'r ystafell yn dawel.
3. Gosodwch eich offer ar y bwrdd. Bag ar y llawr a chot ar y gadair. Parchwch adnoddau'r ystafell.
4. Mae hawl gan bob disgybl i gael addysg dda. Rhaid parchu pawb:
   - ✓ Pan fydd yr aelod staff yn hawlio sylw, rhaid ymdawelu yn syth a gwrando.
   - ✓ Codwch eich llaw cyn gofyn am ateb cwesitwn.
   - ✓ Gwrandewch ar yr aelod staff ac ar gyfraniad disgyblion eraill.
5. Gwnewch eich gorau a chyfranwch ymhob tasg neu weithgaredd.
6. Cwblhewch bob darn o waith hyd eithaf eich gallu.
7. Ar ddiwedd y wers, rhaid gadael yn dawel pan fydd yr aelod staff yn eich rhyddau.

Offer ac adnoddau angenrheidiol

Dylech ofalu fod yr offer cywir gennych ym mhob gwers.

Bydd angen adnoddau cyffredinol i bob gwers ond offer mwy penodol i wersi eraill.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod popeth sydd angen gyda chi

YSGOL DYFFRYN CONWY

Arferion Adferol

Mae cymuned lwyddiannus yn un sy'n adnabod, ac yn ymddiried, yn ei gilydd, ac sy'n cydweithio mewn ffordd deg i ddatrys gwrthdaro, ac i wneud pobl i deimlo'n well.

Sut ydym yn gwneud hynny yn Ysgol Dyffryn Conwy?

Drwy weithredu egwyddorion "Arferion Adferol".

Beth ydyn nhw?

- **Cwestiynau Adferol** - gofynnir chwe chwestiwn adferol i ddisgybl yn dilyn profiad o wrthdaro:
    1. Beth ddigwyddodd?
    2. Beth oedd ar dy feddwl ar y pryd?
    3. Beth wyt ti wedi bod yn meddwl amdano ers hynny?
    4. Ar bwy y mae'r hyn a wnest di wedi cael effaith?
    5. Ym mha ffordd yr effeithiwyd arnynt?
    6. Beth ddylai ddigwydd nesaf yn dy farn di?
- **Cylchoedd Adferol** - trefnir cyfarfod yn dilyn gwrthdaro sylweddol, wedi'i gadeirio fel arfer gan athro/athrawes, gyda'r bwriad o ddatrys gwrthdaro ac adfer y niwed sydd wedi ei achosi. Sylfaen y cyfarfod fydd y chwe chwestiwn adferol, ond rhai sydd wedi'u targedu at y sawl sydd wedi dioddef, yn ogystal â'r achosydd.
- **Iaith Affeithiol** - defnyddia oedolion ar draws yr ysgol iaith sy'n cyfathrebu i'r dysgwr effaith ei ymddygiad ar eraill, ac felly sy'n hyrwyddo perthynas dda (e.e."Rwy'n teimlo'n rhwystredig, Gareth, am nad wyt yn gwrando arnaf").
- Yn dilyn pob digwyddiad difrifol, yn dilyn y broses ymchwilio a disgyblu, fe fydd proses adferol yn cael ei gweithredu er mwyn caniatáu i ddysgwyr adfer eu hunain a chreu cytundeb a chydweithio adeiladol gyda'r disgybl arall neu'r disgyblion eraill neu'r aelod o staff.

Dengys ymchwil mai effaith Arfer Adferol yw:

- Dysgwyr sydd yn teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol
- Ymdeimlad o ddiogelwch yng nghymuned yr ysgol
- Lleihad yn y lefelau bwlio
- Lleihad mewn absenoldeb dysgwyr oherwydd bwlio/ Cynnydd mewn presenoldeb
- Dysgwyr ac athrawon yn datblygu sgiliau datrys gwrthdaro
- Cyrhaeddiad gwell
- Lleihad yn nifer y gwaharddiadau/ Osgoi defnyddio camau mwy eithafol o ddisgyblaeth
- Lleihad mewn cyfeiriadau disgyblaeth yr ysgol/Lleihad mewn cyfeiriadau allanol
- Gwell perthnasau

Camau Parch - Arweiniad i staff

Lluniwyd y camau isod i sicrhau cysondeb a thegwch wrth weithredu rheolau ysgol. Disgwylir i ddysgwyr ddangos parch at eu gwaith ac eraill (disgyblion eraill, staff ac unrhyw ymwelwyr) yn ystod gwersi ac ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.

Nid yw'r canllawiau isod yn gynhwysfawr nac yn ymdrin â phob math o gamymddwyn sy'n digwydd ym mywyd yr ysgol. Serch hynny, maent yn dangos camau pendant i'w cymryd mewn rhai sefyllfaoedd. Disgwylir i'r athro sy'n cyflawni'r camau ystyried y sefyllfa wrth weithredu.

Os yw disgybl yn torri'r rheolau hyn, disgwylir i athrawon ddilyn y camau pendant isod.



Allan o Wersi?

Os ydych ar y coridorau yn ystod gwersi...

Rhaid bod gennych nodyn.
Os nad oes gennych chi nodyn...

Rhaid ymateb yn gadarnhaol i staff.

Peidiwch â cherdded i ffwrdd.

Byddwch yn derbyn cosb cadw OS ydych wedi cerdded allan.

Gofynnwch i'ch athro am ganiatâd cael mynd i'r toiled.

Gwnwech y dewis cywir. Peidiwch â chyrraedd Cynhwysiad.

Camau Gweithredu

CAM 1: Delio â'r camymddygiad o fewn y dosbarth = rhybudd cyntaf.

Strategaethau posib

- Esbonio'r camymddygiad i'r disgybl a sut dylai ymddwyn

CAM 2: Ail Rybudd

- Esbonio'r camymddygiad i'r disgybl ac os yn berthnasol gweithredu symud o fewn y dosbarth

Strategaethau posib

- Symud y disgybl i weithio gyda disgyblion eraill.
- Symud y disgybl i flaen y dosbarth neu newid lle gyda disgybl arall.
- Symud y disgybl i fan arall o'r ystafell ar ei ben ei hun.
- Ni ddylid anfon disgyblion allan o ystafell i sefyll tu allan am unrhyw reswm disgyblu.
- **Nodyn ar Classcharts - Botwm CAM 2**
- **Cam 2 yn golygu ail rybudd, cofnod ar Classcharts (- 1 pwynt negyddol).**

CAM 3: Eithrio'r disgybl o'r wers am gyfnod penodol

Os yw disgybl yn gwrthod cydymffurfio â cham 2, neu os yw'r disgybl yn parhau i gamymddwyn, bydd angen gweithredu 'Cam 3'.

Diffinnir 'Cam 3' fel cyfle i'r disgybl gael toriad byr o'r wers (time out) (Amser i feddwl) am wrthod cydymffurfio.

Eithrio o'r wers - disgwyliadau'r dysgwr

- Sefyll tu allan - wrth y drws
- Peidio tynnu sylw eraill
- Dim crwydro
- Meddwl am yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y wers.

Strategaeth 1 (delio gyda'r dysgwr fy hun - datblygu perthynas)

- Bydd y disgybl yn cael sgwrs adferol gyda'r aelod staff sydd yn gyfrifol am y dosbarth ar y corridor (neu o glyw y dysgwyr eraill) lle bydd dan oruchwyliaeth y aelod staff. Yn dilyn sgwrs adferol a cael toriad byr o'r wers y bwriad ydi cael y dysgwr yn nol mewn am gyfle arall.

Strategaeth 2 (galw am swyddog bugeiliol - sefyllfa fwy heriol / digwydd yn gyson / sefyllfa iechyd a diogelwch)

- Ffoniwch y Swyddfa Bugeiliol a gofyn am aelod o'r Tim Bugeiliol i ddod at y disgybl (sydd o dan sylw). Mae aelodau o'r Tim Bugeiliol "ar ddyletswydd" ar gyfer galwadau o'r fath.
- Bydd y disgybl yn cael sgwrs adferol gyda'r Swyddog Bugeiliol ar y corridor neu leoliad addas cyfagos (ystafell wag wrth ymyl) lle bydd dan oruchwyliaeth y

Swyddog Bugeiliol.

- Yn dilyn sgwrs adferol a cael toriad byd o'r wers y bwriad ydi cael y dysgwr yn nol mewn am gyfle arall.
- Yn dilyn eithriad o wers yn gyson bydd y Swyddog Bugeiliol yn cysylltu gyda rhieni i drafod y digwyddiad / ymddygiad y disgybl.

- **Nodyn ar Classcharts - Botwm CAM 3**
- **Cam 3 yn golygu eithriad o'r wers, cofnod ar Classcharts (- 2 pwynt negyddol).**

Disgybl sydd yn gwrthod dod i mewn i'r wers neu ddim yn dilyn cyfarwyddyd rhesymol gan aelod staff - **syth i gam .**

CAM 4: Ystafell gyfeirio

Os yw disgybl yn gwrthod cydymffurfio â cham 3, neu os yw'r disgybl yn parhau i gamymddwyn, bydd angen gweithredu 'Cam 4'.

Os bydd disgybl yn derbyn 4 rhybudd mewn gwers, gofynnir iddynt fynychu'r ystafell gyfeirio. Bydd disgyblion yn cael gwybod pa ystafell i fynd iddi. Gall y tîm bugeiliol gefnogi hyn.

Ar adegau prin, gall digwyddiadau mwy difrifol olygu bod angen defnyddio ystafell gyfeirio ar unwaith. Bydd y tîm bugeiliol yn cefnogi symud disgyblion o ddosbarth os oes angen.

<u>Strategaethau posib</u>

- Cysylltwch â'r ystafell gyfeirio a rhowch wybod iddynt fod disgybl ar eu ffordd.
- Rhowch wybod i'r disgybl ble mae'r ystafell gyfeirio a'i anfon yno gyda gwaith i'w gwblhau.
- Unwaith y bydd y disgybl wedi cyrraedd yr ystafell gyfeirio, dywedwch wrthynt am eistedd yng nghefn yr ystafell i gwblhau gwaith.

Nodyn ar Classcharts - Botwm CAM 4
Cam 4 bod y disgybl yn symud i'r ystafell gyfeirio, cofnod ar Classcharts (- 3 pwynt negyddol).

CAM 5: Swyddog Bugeiliol

Os yw disgybl yn gwrthod cydymffurfio â cham 4, neu os yw'r disgybl yn parhau i gamymddwyn, bydd angen gweithredu 'Cam 5'.

Strategaeth

- Ffoniwch y Swyddfa Bugeiliol a gofyn am aelod o'r Tim Bugeiliol i ddod i nol y disgybl. Mae aelodau o'r Tim Bugeiliol "ar ddyletswydd" ar gyfer galwadau o'r fath.
- Caiff y disgybl ei dywys i'r Cynhwysiad lle y bydd dan oruchwyliaeth un o'r Swyddogion Bugeiliol.
- Bydd ymgynghori gyda'r Pennaeth Cynorthwyol mewn achosion o gam ymddwyn difrifol. Gall y Pennaeth Cynorthwyol addasu'r eithriad o wersi yn sgil ymddygiad y disgybl o fewn yr ystafell.
- Os na fydd y dysgwr yn cydymffurfio gyda Swyddogion Bugeiliol mewn achosion o eithrio yna bydd Swyddog Bugeiliol / Athro yn cysylltu gyda aelod o'r Uwch Dim arwain er mwyn cefnogi'r sefyllfa ymhellach.

- **Nodyn ar Classcharts - Botwm CAM 5**
- **Cam 5 yn golygu eithriad am weddill y wers, cofnod ar Classcharts (- 4 pwynt negyddol).**

Cynhwysiad

- Bydd disgyblion yn treulio amser yn y Cynhwysiad y diwrnod ar ôl digwyddiad.
- Penderfynir pwy sy'n treulio amser yn y cynhwysiad yn dilyn cyfarfod rhwng y Tîm Bugeiliol a'r UDA ar ddiwedd pob diwrnod ysgol.
- Pan fyddant yn y Cynhwysiad bydd disgyblion yn ymgymryd â gwaith cwricwlwm ac ymyrraeth o dan oruchwyliaeth.
- Hysbysir rhieni bod disgybl wedi ei anfon i'r Cynhwysiad trwy ClassCharts.
- Os yw disgybl yn gwrthod mynychu'r Cynhwysiad bydd rhaid ystyried gwaharddiad allanol.

Cynllun Tracio Uniogl (CTU)

- Bydd aelod o'r UDA yn monitro pwyntiau ymddygiad negyddol a phrydlondeb i wersi yn ofalus. Pan fydd disgybl yn cyrraedd y pwyntiau sbardun trefnir cyfarfod gyda rhieni / gwarcheidwaid i drafod y camau nesaf.
- Os rhoddir disgybl ar CTU, bydd yn cael ei wneud yn glir i'r rhieni / gwarcheidwaid pa amcan maent arni a'r camau gweithredu posibl os bydd ymddygiad yn parhau i fod yn heriol.

Strwythur Ymddygiad

- Parch a Pherthynas (1).pdf

DISGYBLAETH GADARNHAOL

Mae cyfrifoldeb ar bob athro i ofalu am les a chynnydd ein disgyblion yn ogystal â chynnal safonau addysgol.

Mae rôl yr athro unigol yn holl bwysig o ran sefydlu ethos ddymunol a diogel, ac er mwyn meithrin gwerthoedd megis cwrteisi, tegwch, ymddiriedaeth, gonestrwydd ac ystyriaeth o hawliau pawb sy'n gweithio o fewn ein cymuned ysgol.

Gofynnir i bob athro weinyddu'r canllawiau, gan sicrhau bod y disgyblion hefyd yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r rheolau.

BETH YW DISGYBLAETH GADARNHAOL?

- Dull sy'n sicrhau amgylchedd ddysgu addas a rheolir gan yr athro.
- Mae'n ddull sy'n seiliedig ar yr hawl i addysgu a'r hawl i ddysgu
- Mae'n ddull sydd ag ymddygiad CADARNHAOL – ar ran y disgybl a'r athro, yn wraidd iddo.

ATHRONIAETH Y CYNLLUN:

Parch a pherthynas dda rhwng athrawon a disgyblion sydd wrth wraidd dysgu ac addysgu llwyddiannus: creu a chynnal hynny yw bwriad y cynllun.

Wrth weithredu'r cynllun hwn gosodwn i'n gilydd – yn ddisgyblion ac yn athrawon, awyrgylch o ymddiried a sylfaen i gyfathrebu llwyddiannus. Drwy ymddwyn â pharch at ein gilydd a gosod, drwy esiampl a chysondeb, ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a gwaith, rydym yn meithrin cyd-destun adeiladol i addysgu'n disgyblion yn llawn ac yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Llywodraethu a'n rhieni, ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Datblygir y cynllun yma er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n mynnu camymddwyn yn cael eu trin mewn ffordd gadarn a chyson.

Caiff unrhyw ddisgybl sydd â phroblemau neu drafferthion ymddygiad ei gefnogi gan Gyfundrefn Fugeiliol yr ysgol.

MABWYSIADU'R GYFUNDREFN GADARNHAOL

DISGYBLAETH GADARNHAOL AR LAWR Y DOSBARTH YN DILYN DISGWYLIADAU'R

DOSBARTH

- sicrhau dealltwriaeth disgyblion o'r disgwyliadau a pharch, gan egluro'r rhesymeg tu ôl iddynt
- arddangos y disgwyliadau ar ffurf poster / power point
- hysbysu rhieni o'r disgwyliadau yn gyson
- ailymweld â'r disgwyliadau'n gyson

PENDERFYNU AR GANLYNIADAU POSITIF / CLOD

- pwyntiau clod
- tystysgrif
- arddangos gwaith
- cysylltu â'r cartref
- Tocynnau raffl / Pwyntiau / Cystadleuaeth rhwng dosbarthiadau / Taith

RHAID I GLOD O UNRHYW FATH GAEL EI ROI YN GYFLYM A MEWN MODD YSTYRLON

PENDERFYNU AR GANLYNIADAU / SANCSIYNAU

Dylai canlyniadau / sancsiynau fod yn:

- bethau nad yw disgyblion yn eu hoffi
- effeithiol
- hawdd i'w gweithredu yn gyson
- addas i'r disgyblion
- gyhoeddus i bawb

Gall canlyniadau / sancsiynau gynnwys:

- rhybudd
- symud
- colli amser yn ystod egwyl neu ginio
- 'Amser i Feddwl'
- cysylltu â'r cartref
- Cam 5/6 *(mewn achosion o gamymddwyn difrifol)*

Drwy weithredu ar ganlyniadau negyddol, rhaid:

- bod yn gyson
- peidio â dangos ffafriaeth
- cynnig y canlyniadau fel dewis
- defnyddio tôn llais addas
- edrych am gyfle i ganmol y disgybl ar ôl y camymddwyn
- dechrau 'llechen lân' y wers nesaf.

I GRYNHOI

- Disgyblaeth Gadarnhaol yw canmol y disgybl am wneud rhywbeth da.
- Mae Disgyblaeth Gadarnhaol yn cynhyrchu hunanddisgyblaeth ac yn codi cymhelliant disgyblion.
- Mae Disgyblaeth Gadarnhaol yn annog disgyblion i dderbyn cyfrifoldeb dros eu hymddygiad.
- Er mwyn i egwyddorion Disgyblaeth Gadarnhaol wreiddio'n effeithiol, rhaid iBOB athro weithredu'n gyson.
- Rhaid i egwyddorion Disgyblaeth Gadarnhaol fod yn sail i bob agwedd o'n haddysgu.